# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bryn Awel**

**Llangefni**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/09/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bryn Awel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Raji Hughes |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Gorffennaf 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech ddigonol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Caiff y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth eu cefnogi i gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol. Cânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt ac mae cael gofal mewn cartref teulu o fudd iddynt.

Y darparwr gwasanaeth yw'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr hefyd, a'r unig aelod parhaol o'r staff gofal. Mae'n ymgymryd â'r rolau yn ddiwyd. Caiff anghenion y bobl eu diwallu i safon uchel a chaiff eu dewisiadau unigol eu hystyried a'u bodloni.

Mae'r cartref yn gyfforddus ac yn groesawgar ac mae'n diwallu anghenion yr unigolion sy'n byw yn y cartref. Ar y cyfan, mae'r trefniadau llywodraethu yn gyson, ac mae'r darparwr gwasanaeth yn llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'i nodau a'i amcanion fel y'u nodir yn y datganiad o ddiben.

## Llesiant

Caiff y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth eu trin â pharch ac urddas. Caiff eu hunigolrwydd ei gydnabod, ac mae'r gweithgareddau dyddiol yn adlewyrchu eu diddordebau personol. Dilynir trefn gyson sy'n golygu bod y bobl yn gwybod pa ofal a chymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r cynlluniau personol a'r cyfathrebu ag aelodau'r teulu yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn eirioli ar ran y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae hyn yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt.  Mae canolfannau dydd lleol yn darparu strwythur a diwrnodau prysur i'r rhan fwyaf o'r bobl, sy'n golygu eu bod yn ymlacio ac yn gorffwys pan fyddant yn y cartref.

Caiff anghenion o ddydd i ddydd eu diwallu'n dda, sy'n golygu nad oes fawr ddim cyfle i'r bobl wneud pethau drostynt eu hunain. Caiff prydau bwyd eu paratoi pan fo'u hangen, gan addasu a newid yn unol ag amserlenni'r unigolion. Caiff ystafelloedd gwely unigol eu haddurno'n unol â chwaeth bersonol, a gall y bobl ddewis cymdeithasu â'i gilydd yn yr ardaloedd byw cymunedol, neu gallant dreulio amser yn eu mannau personol eu hunain. Mae gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt ar gael, fel jig-sos.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth.  Cânt eu cefnogi gan eu teuluoedd sy'n ymweld â nhw'n rheolaidd, a chânt eu cefnogi gan weithiwr cymdeithasol penodedig. Mae'r darparwr gwasanaeth yn diweddaru ei hyfforddiant diogelu fel y bo angen a chaiff y gwiriadau gofynnol eu cwblhau ar aelodau'r teulu a chedwir cofnod o ymwelwyr sy'n dod i'r cartref. Mae'r darparwr gwasanaeth yn cyfathrebu'n rheolaidd â theuluoedd y bobl, ac mae'n ymdrin yn llwyddiannus ag unrhyw faterion a godir.

Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu trin fel rhan o'r teulu ar yr achlysuron arbennig y byddant yn eu dathlu gyda'i gilydd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig pan nad oedd modd i'r bobl ddychwelyd at eu teuluoedd. Mae gwaith adnewyddu diweddar wedi gwella'r cyfleusterau sydd ar gael, mae'r tŷ yn gyfforddus ac yn groesawgar, gan alluogi'r unigolion hynny sy'n byw yno i gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr gwasanaeth yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth y bobl ac yn seiliedig ar wybodaeth bersonol, mae'n penderfynu a ydynt yn gydnaws â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr gwasanaeth yn dilyn proses dderbyn ffurfiol ac ni chaiff asesiadau risg nac asesiadau cydnawsedd eu cynnal. Prin oedd y dystiolaeth fod y darparwr gwasanaeth wedi ystyried cydnawsedd yr unigolion a oedd eisoes yn byw yn y gwasanaeth. Cafodd yr unigolion diweddaraf eu derbyn yn ystod pandemig COVID-19, ac felly nid oedd modd iddynt ymweld â'r gwasanaeth. Ar ôl i'r unigolion setlo yn y cartref, mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol am anghenion gofal a chymorth, sy'n galluogi cyfnod ymgartrefu hwylus.

Mae'r wybodaeth a gaiff ei chasglu yn llywio'r cynlluniau personol. Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth yr unigolyn o ddydd i ddydd. Mae'r wybodaeth yn cynnwys ei anghenion gofal, ei ddewisiadau personol a'i drefn arferol a sut y caiff hyn ei ddarparu. Mae'r darparwr gwasanaeth yn eu hadnabod yn dda, ac yn eirioli'n rheolaidd ar ran y bobl sy'n byw yn y cartref. Pan gaiff y cynlluniau eu newid, ceir tystiolaeth bod y darparwr gwasanaeth wedi gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth amgen a gynigir yn addas a bod yr unigolion yn hapus. Mae'r cynllun ar gael i'r teuluoedd ei weld a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru o fewn y terfyn amser o 3 mis.

Mae'r gofal a ddarperir yn hyrwyddo llesiant y bobl ac yn unol â dewisiadau unigol. Mae'r darparwr gwasanaeth yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu gofal mewn ffordd urddasol a pharchus. Mae'r rhyngweithio yn ystyrlon ac yn gadarnhaol o ganlyniad i agwedd ofalgar y darparwr gwasanaeth. Ceir ymdeimlad o ‘gartrefi oddi cartref’, gyda'r preswylwyr unigol yn byw ochr yn ochr â theulu'r darparwr gwasanaeth. Caiff yr holl ofal ei ddarparu gan y darparwr gwasanaeth. Dim ond un aelod o staff gofal wrth gefn a gyflogir, a bydd yr unigolyn hwnnw yn helpu ar sail ad hoc pan fo angen.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu prydau bwyd iach a chytbwys, ac yn eu teilwra at ddewisiadau unigol. Caiff gofynion deietegol unigol eu hystyried, a rhoddir ystyriaeth hefyd i geisio cyflwyno blasau gwahanol a newydd i'r unigolion. Mae'r gofal yn gyson gan fod pob agwedd ar y gwasanaeth yn cael ei darparu gan y darparwr gwasanaeth, gan sicrhau dealltwriaeth fanwl a phersonol o anghenion unigol. Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi anghenion cyfathrebu unigol ac yn eu diwallu; ond, ni all y gwasanaeth ddarparu gofal yn Gymraeg. Gwneir ymdrech i gyfathrebu yn Gymraeg ar lefel sylfaenol ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Yr Amgylchedd

Mae'r safle yn addas o ran ei leoliad a'i gynllun ac mae'n cynnwys adnoddau addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r tŷ yn agos at ganol y dref, sy'n golygu y gall y bobl gerdded â chymorth i'r siopau lleol ac i fannau eraill o ddiddordeb. Mae'r darparwr gwasanaeth yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod yr unigolion yn gorfforol egnïol.

Yn ddiweddar, buddsoddodd y darparwr gwasanaeth mewn gwaith adnewyddu sylweddol i'r tŷ. Ychwanegwyd dwy ystafell wlyb newydd i'r eiddo a chafodd yr ystafelloedd gwely unigol eu haddurno. Mae'r cartref yn groesawgar ac yn gyfforddus, fel y disgwylid gan gartref teulu. Mae'r adeilad yn fawr ac mae digon o le i bawb gyd-fyw heb effeithio ar ei gilydd. Mae'r ddwy ystafell fyw yn golygu bod gan y teulu a'r preswylwyr fannau ar wahân i ymlacio ac mae ganddynt doiledau ac ystafell ymolchi ar wahân hefyd. Mae'r gegin wedi'i lleoli oddi ar yr ystafell fwyta a chaiff prydau bwyd eu gweini drwy'r gorddrws.

Mae'r ystafell amlbwrpas a gafodd ei hadnewyddu a'i hymestyn yn ddiweddar wedi creu gofod defnyddiol i'r darparwr gwasanaeth ymgymryd â thasgau cartref hanfodol heb effeithio ar brif rannau'r cartref. Caiff unrhyw atgyweiriadau a gwaith arall sydd ei angen eu cynnal yn brydlon. Y darparwr gwasanaeth sy'n ymgymryd â'r holl dasgau glanhau ac mae'n sicrhau bod y cartref yn lân ac yn daclus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr gwasanaeth yn gyfarwydd iawn â'r gwasanaeth, ac yn gyfrifol am bob elfen ohono. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y datganiad o ddiben wedi cael ei ddiweddaru. Cafodd ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn fuan ar ôl yr arolygiad. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliadau ac mae'n nodi sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu cefnogi'r unigolion sy'n byw yn y cartref. Ar hyn o bryd, mae'r darparwr yn ysgrifennu pob cofnod â llaw o hyd ac nid yw wedi defnyddio cyfrif ar-lein AGC eto.

Mae'r darparwr yn mynychu'r hyfforddiant gofynnol, sy'n ei helpu i feithrin a datblygu ei wybodaeth. Weithiau mae'n anodd dod o hyd i amser i ymgymryd â'r hyfforddiant o amgylch y tasgau beunyddiol, ond mae'r darparwr gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r darparwr gwasanaeth yn cyflawni ei rôl fel yr unigolyn cyfrifol ac mae'n glir ynghylch nodau'r gwasanaeth.

Mae systemau ar waith i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth. Ymgynghorir yn rheolaidd ag aelodau teuluoedd, a gofynnir am adborth ganddynt. Mae'r darparwr gwasanaeth yn ymgymryd ag amrywiol elfennau'r rôl yn ddiwyd, gan gyflawni rôl darparwr gwasanaeth, unigolyn cyfrifol, rheolwr a staff gofal bob dydd. Caiff adroddiadau eu paratoi gan yr unigolyn cyfrifol bob 3 mis yn amlinellu perfformiad y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr gwasanaeth wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal bob 6 mis fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Cwblhawyd yr adolygiad diwethaf yn 2019 cyn pandemig COVID-19.

Cwblhawyd y gwiriadau gofynnol mewn perthynas â'r aelod o staff wrth gefn a chaiff ei oruchwylio'n unol â'r gofynion rheoleiddiol. Mae'n adnabod yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gellir galw arno pan na fydd y darparwr gwasanaeth ar gael i ddarparu'r gofal o ddydd i ddydd. Mae defnyddio'r un aelod o staff wrth gefn yn cynnig cysondeb i'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth ac yn rhoi rhywfaint o seibiant rhag gweithio bob dydd i'r darparwr gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 14 | Nid oedd y darparwr gwasanaeth wedi asesu'n llawn a fyddai'r gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion unigol yn llawn cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth. | Newydd |
| 80 | Nid oedd y darparwr gwasanaeth wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal yn unol â'r rheoliadau. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/11/2022